OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2013 Rhif. (Cy. )**

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cilfannau'r Gurnos, Merthyr Tudful) (Gwahardd Troadau Pedol) 2013

*Gwnaed* *17 Mai 2013*

*Yn dod i rym* *23 Mai 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A465 o Gastell-nedd i'r Fenni (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

**Enwi a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mai 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cilfannau'r Gurnos, Merthyr Tudful) (Gwahardd Troadau Pedol) 2013.

**Cyfyngiad**

2. Ni chaiff neb peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd wneud troad pedol wrth fynd tua'r dwyrain neu tua'r gorllewin ar y gefnffordd wrth y Gurnos, ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, o bwynt sydd 55 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt tanbont Gurnos Road i bwynt sydd 425 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt tanbont Gurnos Road.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Mai 2013

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (CILFANNAU'R GURNOS, MERTHYR TUDFUL) (GWAHARDD TROADAU PEDOL) 2013**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 25 Ebrill 2013.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd pob cerbyd sy'n mynd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin rhag gwneud troadau pedol, o bwynt sydd 55 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt tanbont Gurnos Road i bwynt sydd 425 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt tanbont Gurnos Road, ar Gefnffordd yr A465 o Gastell-nedd i'r Fenni (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wrth Gilfannau'r Gurnos, ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 23 Mai 2013 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan cysylltiedig yn ystod oriau swyddfa arferol, yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os oes unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys ynddo, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu

b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o'r gofynion perthnasol,

fe all, o fewn 6 wythnos i 23 Mai 2013, wneud cais i'r Uchel Lys am i'r Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddo, gael ei atal neu ei ddileu.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth / Is-ddeddfwriaeth / Offerynnau Statudol Lleol / Gorchmynion Traffig Parhaol / 2013).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan: Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*M D Burnell*

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru